# DRAFT MINUTES

| | |
|---|---|
| Meeting ID | 2530 |
| Committee | Pwyllgor Llywodraethiant ac Archwilio |
| Date | 30/01/2023 |
| Attendees | Joanne Absalom (Cadeirydd)<br>Councillor Sonia Behr (Is-gadeirydd)<br>Councillor Jules Gardner (Aelod Pwyllgor)<br>Cynghorwyr Wayne Hodgins (Aelod Pwyllgor)<br>Councillor Chris Smith (Aelod Pwyllgor)<br>Cynghorwyr Tommy Smith (Aelod Pwyllgor)<br>Cynghorydd Joanna Wilkins (Aelod Pwyllgor)<br>Martin Veale (Aelod Pwyllgor)<br>Rhian Hayden (Swyddog)<br>Louise Rosser (Swyddog)<br>Bernadette Elias (Swyddog)<br>Andrea Jones (Swyddog)<br>Damien McCann (Swyddog)<br>Tanya Evans (Swyddog)<br>Andrea Owen (Swyddog)<br>Steve Berry (Swyddog)<br>Lynn Phillips (Swyddog)<br>Sarah King (Swyddog)<br>Gemma Wasley (Swyddog)<br>Mike Jones (Public)<br>Alice Rushby (Public)<br>Charlotte Owen (Public)<br>Leeann Turner (Secretary)<br>Deborah Jones (Secretary)<br>Gwasanaethau Democrataidd (Monitor)<br>Pob Cynghorydd (Monitor) |

| | |
|---|---|
| Item ID | 6977 |
| Item Title | Cyfieithu ar y Pryd |
| Summary | Nodwyd na chafwyd unrhyw geisiadau ar gyfer y gwasanaeth cyfieithu ar y pryd. |

| | |
|---|---|
| Item ID | 6978 |
| Item Title | Ymddiheuriadau |
| Summary | Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan:--<br><br>Cynghorydd T. Smith |

| | |
|---|---|
| | Cynghorydd J. Wilkins<br>Charlotte Owen – Archwilio Cymru |

| Item ID | 6979 |
|---|---|
| Item Title | Datganiadau Buddiant a Goddefebau |
| Summary | Ni adroddwyd unrhyw ddatganiadau buddiant na goddefebau. |

| Item ID | 6980 |
|---|---|
| Item Title | Pwyllgor Llywodraethiant ac Archwilio |
| Summary | Cyflwynwyd penderfyniadau'r Pwyllgor Llywodraethiant ac Archwilio a gynhaliwyd ar 16 Tachwedd 2022.<br><br>PENDERFYNWYD cadarnhau'r cofnodion. |

| Item ID | 6981 |
|---|---|
| Item Title | Dalen Weithredu |
| Summary | Cyflwynwyd y Ddalen Weithredu yn deillio o'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 16 Tachwedd 2022.<br><br>PENDERFYNWYD nodi'r Ddalen Weithredu.. |

| Item ID | 7093 |
|---|---|
| Item Title | Blaenraglen Gwaith 2022-23 |
| Summary | Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Swyddog Craffu a Democrataidd.<br><br>Hysbysodd y Prif Swyddog Adnoddau yr Aelodau na fyddai Datganiad Cyfrifon 2021/22 ar gael ar gyfer cyfarfod nesaf y Pwyllgor a drefnwyd ar gyfer 8 Mawrth 2023. Byddid yn anfon nodyn gwybodaeth at Aelodau yn amlinellu'r sefyllfa bresennol.<br><br>Caiff cyfarfod arbennig o'r Pwyllgor Llywodraethiant ac Archwilio ei gynnull os daw Datganiad Cyfrifon 2021/22 ar gael cyn y cyfarfod a drefnwyd ar gyfer 26 Ebrill 2023.<br><br>PENDERFYNWYD, yn amodol ar yr uchod, i dderbyn yr adroddiad a chymeradwyo'r Flaenraglen Gwaith ar gyfer y Pwyllgor Llywodraethiant ac Archwilio. |

| Item ID | 7094 |
|---|---|

| | |
|---|---|
| Item Title | Adroddiad Cynnydd Archwiliad Mewnol |
| Summary | Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad yr Arweinydd Proffesiynol Archwilio Mewnol.<br><br>PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad a bod y Pwyllgor yn nodi'r canfyddiadau o fewn yr Atodiadau ac yn nodi cynnydd ar weithgareddau ar gyfer y cyfnod 1 Hydref i 31 Rhagfyr 2022. |

| | |
|---|---|
| Item ID | 7095 |
| Item Title | Asesiad Ansawdd Allanol Gwasanaethau Archwilio Mewnol Blaenau Gwent |
| Summary | Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Rheolwr Archwilio a Risg.<br><br>PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad a bod y Pwyllgor yn cytuno bod yr adroddiad yn adlewyrchu eu dealltwriaeth o'r Gwasanaeth Archwilio Mewnol a chytuno ar y cynllun gweithredu a gynigir a'i anfon i Sir Gaerfyrddin i gwblhau'r adroddiad.. |

| | |
|---|---|
| Item ID | 7099 |
| Item Title | Sefyllfa Blaenau Gwent yng nghyswllt Ymateb i Gwestiynau yn adroddiad Archwilio Cymru 'Dysgu o Ymosodiadau Seibr' |
| Summary | Gan ystyried y farn a fynegwyd gan y Swyddog Priodol ynghylch y prawf budd cyhoeddus, o bwyso a mesur popeth fod y budd cyhoeddus mewn cynnal yr eithriad yn fwy na'r budd cyhoeddus mewn datgelu'r wybodaeth ac y dylai'r adroddiad gael ei eithrio.<br><br>PENDERFYNWYD eithrio'r cyhoedd tra caiff yr eitem hon o fusnes ei thrafod gan ei bod yn debygol y byddai datgeliad o wybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym Mharagraffau 14 a 18, Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972 (fel y'i diwygiwyd).<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Prif Swyddog Adnoddau a SIRO a'r Prif Swyddog Diogelwch Gwybodaeth.<br><br>Gofynnodd Aelod am drefnu mwy o hyfforddiant technoleg gwybodaeth ar gyfer Aelodau.<br><br>PENDERFYNWYD , yn amodol ar yr uchod, i dderbyn yr adroddiad a bod y Pwyllgor yn ystyried yr wybodaeth a roddir yn yr adroddiad ac yn cael sicrwydd fod gan y Cyngor (neu y bwriadai gael) mesurau priodol i leihau'r risg o ymosodiadau seibr.<br><br>**ATODIAD B2 A B4 –**<br>**ADRODDIAD AR GYNNYDD ARCHWILIO MEWNOL**<br><br>Gan ystyried y farn a fynegwyd gan y Swyddog Priodol ynghylch y prawf budd cyhoeddus, o bwyso a mesur popeth fod y budd cyhoeddus mewn |

| | |
|---|---|
| | cynnal yr eithriad yn fwy na'r budd cyhoeddus mewn datgelu'r wybodaeth ac y dylai'r adroddiad gael ei eithrio.<br><br>PENDERFYNWYD eithrio'r cyhoedd tra caiff yr eitem hon o fusnes ei thrafod gan ei bod yn debygol y byddai datgeliad o wybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym Mharagraffau 13 a 14, Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972 (fel y'i diwygiwyd).<br><br>Cafwyd adroddiad llafar gan y Rheolwr Gwasanaeth Datblygu a Stadau ynghylch Atodiad B2 a B2 a ohiriwyd o gyfarfod blaenorol y Pwyllgor Llywodraethiant ac Archwilio a gynhaliwyd ar 16 Tachwedd 2022.<br><br>PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad llafar a bod y Rheolwr Gwasanaeth Datblygu a Stadau yn cyfeirio Atodiad B4 i'r Pwyllgor Craffu perthnasol i gael ei ystyried. |